Cofnodion cyfarfod 14 Chwefror 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Lena Ashley	Daniel Williams	
Nerys John	Casi Roberts	
Gruff John	Sarah Riley	
Aled Emyr		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd i gyfarfod mis Chwefror. **Ymddiheuriadau**: Peter Simpson, George Smith, Mair Bebb Jones, Iestyn Harris. Dywedodd y Cadeirydd bod Peter wedi cael damwain a bod y Cyngor yn cofio ato gan obeithio gwellhad buan iddo.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir am y Parcio ar Stryd Bangor; dywedodd bod trafodaeth wedi cychwyn a bod rhai o'r trigolion eisiau rhywfath o gynllun parcio tra bod rhai eraill ddim eisiau newid. Dywedodd hefyd bod yr orfodaeth ddiweddar wedi dod i'r fei oherwydd cwynion. Yn rhan o'r mater parcio dywedodd ei fod wedi cael cyfarfod a'r Archddiacon Esgobaeth Bangor ynglŷn â chynlluniau Neuadd yr Eglwys. Mae'r Esgobaeth yn awyddus i weithio a'r Cyngor a'u bod yn agored i syniadau er enghraifft cyflwyno permits ac yn y blaen. Efallai bod modd benthyg y maes parcio am y tro ond oherwydd bod defnydd yn cael ei wneud a'r safle efallai nad oes modd gwneud hyn. Mae cynllun i wneud holiadur ar gyfer cael gwybod teimladau'r trigolion ynglŷn â'r parcio a'u dymuniadau.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 17 o Ionawr 2017. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir wedi fan newidiadau i eitemau 5.3, 5.5 a 7.3**	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Hysbysfyrddau** -. Cafwyd cadarnhad bod hysbysfwrdd wedi ei osod ar y toiled; diolchwyd i'r Cadeirydd a Tomos am eu gwaith o'i godi.	
5.2	**Toiledau** - cafwyd copi o gynlluniau'r bragdy i'r toiledau. Penderfynwyd y Cyngor i dderbyn y dyluniad	
5.3	**Biniau** - Trafodwyd y mater o roi posteri a'r finnau sbwriel Lan y Môr ar gyfer hysbysu'r	

	cyhoedd nad binnau ar gyfer sbwriel cartref ydynt. Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon i bosteri cael eu gosod ar y biniau. Penderfynwyd y Clerc i anfon adroddiad i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Rhoddwyd gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â tho'r Neuadd gan y Cadeirydd. Mae angen "catladder" gan yr adeiladwr er mwyn cwblhau'r gwaith a bydd yn ymdrechu i ddod o hyd i un. Cafwyd adroddiad gan yr Adeiladwr bod y llechi yn llithro oherwydd bod yr holion yn pydru a bod y coed sydd o dan y llechi hefyd yn mynd yn hen ac o ganlyniad bydd angen ail doi'r Neuadd yn y blynyddoedd agos. Nid oes mwy o wybodaeth i law ar y Kingfisher - extreme climate ar gyfer talcen y Neuadd. Mae blinds ar gyfer cyntedd y Neuadd wedi eu harchebu. Mae angen goriad newydd oherwydd bod un wedi torri. Mae trefn ar gyfer archebu goriad sydd yn golygu bod angen llythyr oddi wrth y clerc. Y Cadeirydd a'r Clerc i ymdrin â'r mater yma. Eglurodd y Cadeirydd am y tamp o fewn y Neuadd a bod angen adroddiad annibynnol oddi wrth arbenigwr sydd gyda phrofiad mewn hen adeiladau, gofynnwyd i aelodau'r Cyngor os byddem yn caniatáu cael adroddiad gan Peter Wray er mwyn sicrhau gwneud gwaith angenrheidiol a fydd yn llwyddiannus. Cytunwyd I symud ymlaen i gael adroddiad.	**CLERC/DW**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Ionawr a derbyn yr adroddiad misol. Derbyniwyd hefyd yr adroddiad atodol. Cyfeiriodd y Swyddog Ariannol bod arian TAW wedi ei dderbyn.	
7.2	Trafodwyd a chytunwyd ceisiadau sefydliadau o fewn Y Felinheli am gymorth ariannol a gweler yr atodiad. Trafodwyd arian grantiau Tesco ag arian CADW. Y Clerc i symud ymlaen i wneud cais am yr arian sydd yn ddyladwy oddi wrth Tesco drwy lenwi ffurflen bod y gwaith wedi ei gwblhau. Angen Cysylltu â Geraint Hughes o Groundworks. Bydd arian CADW yn ddyladwy wedi i adroddiad o'r gwaith cynnal i'r Cloc gael ei osod ar ddau safle we benodedig. Y Clerc i wneud cais am y grant oddi wrth Gofebion Rhyfel.	**CLERC**
7.3	**Cynllun Pensiwn** - cafwyd adroddiad gan y	

	Swyddog ariannol ynglŷn â chynllun pensiwn. Dywedodd bod rhai dyddiadau a gweithgaredd ar atodlen cyflwyno cynllun sydd angen i'r Cyngor gydnabod. Mae tair swydd wedi eu hadnabod sydd yn ddilys ar gyfer cynllun pensiwn. Clerc Ysgrifenyddol, ariannol a gofalwraig. Penderfynwyd anfon llythyr i'r tri pherson ynglŷn â chynllun pensiwn.	
7.4	Penderfynwyd i parhau i fod yn aelod o Unllais a hefyd i dalu aelodaeth blwyddyn SLCC.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	**Plannu Coed -** cafwyd gwybodaeth gan Gruff John ynglŷn â phrosiect plannu coed. Angen edrych ar y prosiect i weld os yw'r un prosiect a drafodwyd ym mis Ionawr..	
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Peter Wray yn cael ymweliad safle yn fuan er mwyn cwblhau'r gwaith ar y goleuadau..	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C17/0087/20/LL - Ehangu'r ffenestr gromen a balconi presennol - 23 Ffordd Hebog, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QZ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.2	C17/0127/20/CC - Gwaith I goed sy'n destun gorchymyn gwarchod coes - 10 Tai Terfyn Bangor Street, Y Felinheli, LL56 4JJ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.3	C17/0121/20/LL - Diwygio amod rhif 4 o ganiatâd cynllunio C15/1052/20/LL er mwyn ehangu oriau agor y siop I 8 yb tan 8 yh Llun i Sadwrn a 10 yb tan 8 yh ar Ddydd Sul - Pant Erys, 34 Glan y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ. - DIM GWRTHWYNEBIAD	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Dim adroddiad.	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
12.1	Dim adroddiad	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Dim adroddiad.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn ynglŷn â phrosiect risg arfordirol. Y Clerc gysylltu â Cefin Edwards Cyngor Gwynedd.	
15.0	**GWEFAN**	
	Angen trefnu cyfarfod pellach i symud ymlaen a'r wefan newydd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:30	
Llofnod:		Dyddiad:

ATODIAD

CYNGOR CYMUNED
Y FELINHELI
COMMUNITY COUNCIL

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL
APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE

08.02.17

CYMDEITHAS/ORGANISATION		MANTOLEN / STATEMENT	2015/6	2016/7	
Y Goriad		✓	200	200	Cynnal
Clwb Peldroed	£1000		400	1000	Creu llwybr concrit
1st Felinheli Rainbows	£100		50	100	Craft Activities
3rd Portdinorwic Guides	£100		75	100	Tents and camping equip
Cylch Meithrin	£250		250	250	Sied neu flwch storio
CyfeillionYsgol Y Felinheli	£300		200	300	Offer technoleg gwybodaeth
Cylch Ti a Fi	£100		100	100	Bocs storio
Ras Hwylio	£200		100	100	Costau cynnal
Clwb y Felin (Henoed)			100	100	
Brownies (See Rainbows)			75		Gweler Rainbows
Clwb Peldroed Ieuenctid	£300		350	300	Citiau Newydd
Parch Brinley Williams	£250			DIM	Cost cerrig man ar y llwybrau
Gwyl y Felin	£1000		800	1000	Gweithgareddau